



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Diweddariad am y brechlyn Vaccination Update



Cylchlythyr Wythnosol Weekly Newsletter

CYHOEDDIAD 4: wythnos 08/02/2021

Cynnydd Wythnosol (1 - 8 Chwefror)

Yr wythnos ddiwethaf, cyraeddasom garreg filltir o 100,000 o frechlynnau ac erbyn hyn rydym wedi brechu cyfanswm o 111,443 o bobl ar draws ein Bwrdd Iechyd.

Diolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi mynychu eu hapwyntiadau brechu hyd yn hyn. Heboch chi, ni fyddai'r ffigyrau anhygoel hyn yn bosibl.



Rydym wedi cynnig brechlynnau i'r holl staff a phreswylwyr yn ein cartrefi gofal i oedolion hŷn y mae'n ddiogel i ni wneud hynny ac mae'r rhai hynny nad ydym wedi gallu eu cyrraedd eto yn cael asesiadau risg parhaus. Rydym wedi brechu dros 27,013 o bobl 80 oed a hŷn, dros 18,538 o staff y rheng flaen, 4,442 o staff gofal cymdeithasol yn ogystal â brechu 21,492 o bobl rhwng 75-79 oed.

Yr wythnos ddiwethaf, gweithiodd ein Nyrsys Ardal, Meddygon Teulu, unedau symudol a chydweithwyr Gofal Sylfaenol yn eithriadol o galed gan ddechrau brechu'r rheiny sy'n gaeth i'r tŷ ac sy'n gymwys yn unol â grwpiau blaenoriaeth y JCVI. Byddwn yn cysylltu â chleifion i roi gwybod iddynt fod y tîm yn dod i roi eu brechlyn iddynt. Cysylltwch â'ch Meddyg Teulu i wirio a ydych wedi'ch cofrestru'n gaeth i'r tŷ ai peidio.

Tîm Brechu Symudol



Yr wythnos hon, mae ein Tîm Brechu Symudol wedi bod yn rhoi brechlynnau i gleifion mewnol ein Hysbytai sy'n bodloni meini prawf blaenoriaeth y JCVI.

A ninnau eisoes wedi ymweld â'r Ysbyty Sirol, Ysbyty Cas-gwent, Ysbyty Aneurin Bevan, Ysbyty'r Tri Chwm ac Ysbyty Gwynllyw'r wythnos dwethaf, bydd y tîm yn ymweld â gweddill ein Hysbytai dros yr wythnos nesaf.

Gwylwch y fideo hwn i weld ein Cyfarwyddwr Cyswllt Gweithrediadau, Kath Smith, yn egluro'r amserlen yr ydym wedi'i sefydlu i frechu ein cleifion mewnol cymwys <https://www.youtube.com/watch?v=QAF9PhwmQEQ>

Cyfanswm y bobl
wedi'u brechu yn
ardal ein Bwrdd Iechyd
(hyd at 08/02/2021)

111,443

Ffigyrau Brechu Wythnosol (1 - 8 Chwefror)

Cartrefi Gofal i Oedolion
Hŷn (staff a
preswylwyr) 7,000

Staff Iechyd
Rheng Flaen 18,538

Pobl dros
80 oed 84.5%

Pobl dros
75 oed 87.5%

Pobl dros
70 oed 67%

Nifer y
brechlynnau
a roddwyd mewn
Meddygfeydd Meddyg Teulu 36,911

Yr Wythnos Sydd i Ddod (8-15 Chwefror)

Yr wythnos hon, rydym i fod i gael cyflenwad o 26,000 o frechlynnau.

Os cawsoch eich dos cyntaf o'r brechlyn rhwng y 7-20 Rhagfyr, cewch lythyr yn eich gwahodd i gael eich ail frechlyn yn yr wythnos nesaf.

Y cleifion sy'n cael cynnig brechiad ar hyn o bryd yw'r rhai sy'n gymwys yng ngrwpiau 1-4 y JCVI. Rydym yn disgwyl cwblhau'r broses gwahoddiad erbyn canol mis Chwefror ac rydym yn gweithio tuag at gynlluniau i frechu'r rheiny yng ngrwpiau 5-9 y JCVI erbyn y gwanwyn. Oherwydd nifer o wahanol ffactorau, megis y nifer o ddosiau a dderbyniwn, gall cynlluniau newid ar fyr rybudd.

Am ragor o wybodaeth, ac i ganfod ym mha grŵp blaenoriaeth ydych chi, ewch i <https://www.gov.uk/government/publications/priority-groups-for-coronavirus-covid-19-vaccination-advice-from-the-jcvi-30-december-2020>

Ffigyrau ar gyfer yr wythnos sydd i ddod (8-15 Chwefror)

Cyflenwad brechlynnau ar gyfer yr wythnos hon	26,000
---	--------

Trefn Brechlynnau

80 oed a hŷn	Meddygfeydd Meddyg Teulu
72-79 oed	Canolfannau Brechu Torfol
70-71 oed	Meddygfeydd
Hynod Fregus Yn Glinigol	Meddygfeydd
65-69 oed	Canolfannau Brechu Torfol
60-64 oed	Canolfannau Brechu Torfol
55-59 oed	Meddygfeydd
50-54 oed	Canolfannau Brechu Torfol
Yn Gaeth i'r Tŷ	Timau Symudol



Cynaliasom sesiwn holi ac ateb fyw yr wythnos ddiwethaf, lle aeth Dr Liam Taylor ac Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd Mezz Bowley ati i ateb lluo o gwestiynau ynghylch y rhaglen frechu yn ardal y Bwrdd Iechyd.

Gallwch wyllo'r fideo addysgiadol yn <https://www.facebook.com/AneurinBevanHealthBoard/videos/1803982433103945>

Apwyntiadau

Os ydych yn 80 oed a hŷn ac nad ydych wedi cael gwahoddiad am apwyntiad, cysylltwch â'ch Meddyg Teulu.

Mae'r lleoliad lle rhoddir eich brechlyn yn dibynnu ar eich grŵp blaenoriaeth (gweler y siart gyferbyn). Ni chewch ddewis lleoliad eich apwyntiad.

Os cewch apwyntiad, gwnewch bob ymdrech i fynychu, gan na fyddwn yn gallu cynnig apwyntiad arall, ac eithrio i'r bobl hynny sydd wedi'u cofrestru'n gaeth i'r tŷ. Peidiwch â chysylltu â'r ganolfan archebu na meddygfa'ch Meddyg Teulu os nad ydych wedi derbyn llythyr apwyntiad hyd yn hyn.

Cyhoeddir ffigyrau brechu dyddiol gan Iechyd Cyhoeddus ar eu gwefan: <https://public.tableau.com/profile/public.health.wales.health.protection#!/vizhome/RapidCOVID-19virology-Public/Headlinesummary>

Mwy a wybodaeth a Chwestiynau Cyffredin ar ddarpariaeth, cymhwysedd a diogelwch y brechiad, ewch i: <https://phw.nhs.wales/topics/immunisation-and-vaccines/covid-19-vaccination-information/about-the-vaccine/>



Yr wythnos ddiwethaf, clywsom y newyddion trist fod Capten Syr Tom Moore, a oedd wedi codi cymaint o arian i'r GIG y llynedd, wedi marw o Covid-19. Dyma neges atgoffa arall pam mae ymdrech enfawr a chyfraniad ein holl staff a gwirfoddolwyr sy'n rhan o'r rhaglen frechu mor bwysig.

Diolch i Huw Fairclough am dynnu'r lluniau ingol hyn.